Helfa'r Coed Hynafol

CA3 Cymraeg/Drama

Llafaredd/Darllen/Drama:
CYMERIAD COEDEN

GWEITHGAREDD 1a:
TAFLEN YR ATHRO

Nodau'r sesiwn
Nod y sesiwn hon yw codi ymwybyddiaeth o goed coetir a'u nodweddion unigol. Defnyddir cardiau gwybodaeth a drama i gyflawni hyn.

Cyflwyniad
Naill ai: Y disgyblion i eistedd mewn cylch, a gofynnwch i bob un enwi coeden yn ei dro.

Neu: Fel dosbarth cyfan, gofynnwch i'r disgyblion enwi coed cyfarwydd.

Prif ran/datblygiad
Darllenwch drwy'r wybodaeth am goed ar gardiau gwybodaeth y disgyblion gyda'ch gilydd. Nodwch fod gan bob coeden ei nodweddion ei hunan. Sut gellid cyfleu hyn ar ffurf drama?

Rhannwch y dosbarth yn chwe grŵp. Rhowch un cerdyn i bob grŵp, gan gadw'r dewis yn gyfrinachol. Gofynnwch i bob grŵp greu tablo sy'n cynrychioli'r goeden hon, a dangoswch bob tablo yn ei dro. Bydd y 'gynulleidfa', sef gweddill y dosbarth, yn ceisio dyfalu pa goeden sy'n cael ei dangos.

Dosbarth llawn
Dylai'r athro gadarnhau beth yw enw pob coeden, gan dynnu sylw at ddefnydd o theatr corfforol, ac enghreifftiau o bersonoli a symboliaeth lle bynnag mae'n ymddangos yn y tablo. Dylai'r disgyblion ddewis a thrafod un tablo da.

Cysylltiadau cwricwlaidd: Gofynion y CC Cymraeg 2008:

Llafaredd

Sgiliau: 1,2,3,7
Ystod: 2,3,4,5

Darllen

Ystod: 1,2,3

Cysylltiadau Eraill:

Datblygu Sgiliau Cyfathrebu
Datblygu Sgiliau Meddwl
ADC&DF
ABCh

Offer angenrheidiol
Cardiau gwybodaeth i'r disgyblion.

D.S. Pe bai modd archebu copïau o'r poster enwau coed o'r wefan ganlynol: www.field-studies-council.org/publications/pubsinfo.aspx?Code=OP81

byddai'n helpu'r disgyblion i ddod yn gyfarwydd ag enwau Cymraeg y coed yn yr ardal.

GWEITHGAREDD ESTYNEDIG
Gofynnwch i'r disgyblion ddewis coeden a gwneud ymchwil bellach fel gwaith cartref. Rhowch y cysylltiadau canlynol iddynt:

Gwefan Helfa Coed Hynafol **www.ancient-tree-hunt.org.uk/project/** (cliciwch ar 'Cymraeg')

www.treeforall.org.uk/JoinIn/Hedgeandcopse/default.htm – cliciwch ar ***Ffeithiol diddorol*** yn yr adran Deunyddiau Cymraeg

Gwefan Coed Prydeinig **www.woodland-trust.org.uk/britishtrees**

3720/06/08

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

Helfa'r Coed Hynafol

CA3 Cymraeg/Drama

Llafaredd/Darllen/Drama:
CYMERIAD COEDEN

GWEITHGAREDD 1b:
TAFLEN YR ATHRO

Nodau'r sesiwn
Archwilio pwysigrwydd coeden i gymuned. Bydd disgyblion yn gwrando ar, ac yn ymateb yn adeiladol i eraill, yn cyflwyno dadl ac yn chwarae rolau gwahanol.

Cyflwyniad
Dylai'r athro gyflwyno senario: mae yna goeden dderwen y credir ei bod dros 400 mlwydd oed ynghanol y pentref/comin lleol/parc (gallai'r athro ddewis y safle mwyaf addas yn ôl lleoliad yr ysgol). Mae'r dderwen yn mynd i gael ei thorri i lawr gan fod y cyngor ar fin lledu'r ffordd drwy'r pentref/tref/dinas. Yr opsiwn rhataf i'r cyngor yw defnyddio'r safle lle tyf y dderwen, e.g. ynghanol y pentref neu ran o dir comin neu barc.

Gweithgaredd
Trafodwch pwy a beth y byddai'r cynllun yn effeithio arnynt. Os yw'r disgyblion yn cael anhawster meddwl am syniadau, gallai'r athro awgrymu rhai o'r canlynol:

Adar, gwiwerod (nyth gwiwer yn y goeden), tylluan, adar, pryfed, trigolion hŷn yr ardal sydd ag atgofion melys am y goeden, plant ysgol sy'n casglu mes, trigolion sy'n gwerthfawrogi'r goeden fel tirnod neu am ei hanes lleol.

Mewn parau, dylai'r disgyblion baratoi dadl yn erbyn torri'r goeden i lawr i'w rhoi gerbron cyfarfod o'r cyngor.

Chwarae rôl y cyfarfod protest. Gallai'r athro chwarae rôl y Cyngor, neu gallai 2 neu 3 disgybl wirfoddoli i chwarae'r rôl hwnnw. Dylid dweud wrthynt bod adeiladwyr y ffordd wedi dadlau mai dyma'r lle gorau i leoli'r ffordd newydd ar sail cost. Gallent efallai ddisgrifio sut gallent wneud iawn am dorri'r goeden i lawr.

DS: Dylai'r athro a'r disgyblion sefydlu rheolau Siarad/Gwrando a chytuno arnynt gyda'r dosbarth cyn dechrau chwarae rôl.

Cysylltiadau cwricwlaidd:
Gofynion y CC Cymraeg 2008:

Llafaredd

Sgiliau: 1,2,3,7
Ystod: 2,3,4,5

Cysylltiadau Eraill:

Datblygu Sgiliau Cyfathrebu
Datblygu Sgiliau Meddwl
ADC&DF
ABCh

Offer angenrheidiol

Offer ysgrifennu a phapur.

GWEITHGAREDDAU ESTYNEDIG
Trafodwch pa fathau o brotest allai godi o'r cyfarfod. Gallai tasgau drama pellach ganolbwyntio ar ddefnyddio iaith berswadiol ac iaith deimladol.

Dyma rai enghreifftiau:

- protest grŵp gyda baneri, posteri a sloganau;
- gorymdeithio at adeilad y cyngor;
- defnyddio'r cyfryngau – papurau newydd lleol, radio lleol;
- protestiadau;
- cyfweliadau ar radio lleol;
- eitemau newyddion ar deledu rhanbarthol.

Cynlluniwyd gêm ryngweithiol Badger Wood ar gyfer CA2 – ond gall fod yn addas i ddisgyblion ieuengaf CA3 **www.naturedetectives.org.uk/play/games**

The Tree Register · Ancient Tree Forum · Heritage Lottery Funded · Esmée Fairbairn Foundation · Scottish Natural Heritage · WCVA

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk **www.AncientTreeHunt.org.uk**

COED CADW WOODLAND TRUST

3720/06/08

Helfa'r Coed Hynafol

CA3 Cymraeg/Drama

Llafaredd/Darllen/Drama:
CYMERIAD COEDEN

GWEITHGAREDD 1a: CARDIAU GWYBODAETH I'R DISGYBLION

Derwen

Y dderwen yw 'brenin' y goedwig. Mae nifer o bobl yn credu mai dyma'r goeden bwysicaf, fwyaf pendefig a mwyaf urddasol. Mae'n ddigon cryf i wrthsefyll stormydd, ac yn byw dros 800 mlynedd. Mae rhai bobl yn galw'r goeden yn 'dad y fforest'. Mae'n tyfu'n araf (tua 3cm bob blwyddyn) ac mae ganddi ganghennau enfawr – breichiau mawr tywyll gyda cheinciau neu benelinau cam. Roeddynt yn arfer cael eu defnyddio i adeiladu llongau ac i wneud dodrefn cryf. Y fesen yw ffrwyth y dderwen. Mae dros 1,000 o bryfed a lindys yn ymgartrefu yn y goeden dderwen.

Gallech chwilio am wybodaeth am rai o draddodiadau'r Nadolig sy'n gysylltiedig â'r goeden dderwen, fel y Boncyff Nadolig a'r uchelwydd.

Ffawydden

Mae pobl yn aml yn galw'r ffawydden yn 'fam y fforest'. Mae ganddi ganghennau trwchus gorchuddedig sy'n rhoi cysgod i goed ieuengach sy'n brwydro i fyw. Dyma goeden fawr, hardd a changhennog a'r canghennau hynny wedi'u gorchuddio â dail. Mae gan y ffawydden foncyff llyfn. Mae gwiwerod, pathewod, bronfreithod a cheirw yn bwyta'r cnau ffawydd, sef ffrwyth y goeden. Yn yr hydref, mae'r ffawydden yn aur, coch ac oren ei lliw.

Bedwen

Y fedwen yw'r goeden fwyaf cain a hudol o'r holl goed, ond mae hefyd yn wydn iawn. Gall fyw mewn mannau lle byddai'r dderwen yn marw. Mae ganddi frigau a changhennau cain, dail bychan a rhisgl arianwyn ar ei boncyff. Mae'r fedwen yn byw hyd tua 100 oed, ond nid yw'n cyrraedd ei llawn aeddfedrwydd hyd nes y bydd yn 25. Flynyddoedd yn ôl, roedd brigau'r fedwen yn cael eu rhoi mewn bwndel a'u defnyddio fel gwialen fedw i gosbi'n gorfforol. Mae pren y fedwen yn llosgi'n hawdd, ac mae'n cael ei ddefnyddio hefyd i wneud drymiau.

Onnen

Mae'r onnen yn adnabyddus fel 'brenhines y goedwig'. Mae ganddi foncyff syth iawn a changhennau sy'n lledu allan yn urddasol gyda'r blaenau'n pwyntio i'r awyr. Mae hyn yn rhoi siâp crwn i'r goeden. Mae ei gwreiddiau'n ymledu ymhell. Mae pren yr onnen yn llosgi'n ardderchog. Flynyddoedd maith yn ôl, roedd pobl yn credu bod gan yr onnen bwerau i wella anhwylderau, ac roedd storïau am bobl ac anifeiliaid yn gwella o'u salwch ar ôl cyffwrdd â brigyn o'r onnen. Heddiw, mae'r onnen yn cael ei defnyddio mewn meddyginiaethau Tsineaidd a llysieuol.

The Tree Register · ancient tree forum · Heritage Lottery Funded · Esmée Fairbairn Foundation · Scottish Natural Heritage · WCVA

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.

www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

3720/06/08

Helfa'r Coed Hynafol

CA3 Cymraeg/Drama

Llafaredd/Darllen/Drama:
CYMERIAD COEDEN

GWEITHGAREDD 1a: CARDIAU GWYBODAETH I'R DISGYBLION

Celynnen

Y gelynnen yw'r goeden fythwyrdd bwysicaf. Mae'n tyfu i uchder o 9-12 metr gan dyfu'n aml dan goed uchel yn ogystal ag ar dir agored. Adeg y Nadolig, defnyddir ei dail gwyrdd tywyll, sgleiniog a phigog gyda'u haeron coch fel addurniadau. Mae adar ac anifeiliaid yn bwyta'r aeron, ond maent yn wenwynig i bobl. Yn ôl y sôn, cynhaliodd Robin Hood nifer o gyfarfodydd gyda'i ddynion dan gelynnen yn Fforest Sherwood.

Llwyfen

Mae'r llwyfen yn un o'r coed talaf; dyma goeden fawreddog sydd wedi dioddef yn fawr o 'glefyd llwyfen yr Isalmaen'. Dinistriodd y clefyd hwn lawer o goed llwyfen yn yr 1970au. Erbyn hyn, mae'r llwyfen yn adfer yn araf deg gyda chymorth cadwraeth a gwaith ymchwil. Mae gan y goeden risgl garw iawn a changhennau ceinciog, cam eu golwg. Mae da byw yn hoff iawn o fwyta dail y llwyfen.

The Tree Register · ancient tree forum · Heritage Lottery Funded · Esmée Fairbairn Foundation · Scottish Natural Heritage · WCVA

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.

www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

3720/06/08